WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Menter Twyll Genedlaethol

Archwilydd Cyffredinol Cymru Lefel 3

Hysbysiadau prosesu teg o dan Ddeddf Diogelu Data 1998

Lefel 3: Testun llawn

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol) yn cynnal ymarferion paru data i helpu i atal a chanfod twyll. Dyma un o'r ffyrdd y mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cyflawni ei gyfrifoldeb i hyrwyddo darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio arian cyhoeddus.

Mae paru data yn golygu cymharu setiau o ddata, fel y gyflogres neu gofnodion budd-daliadau corff, yn erbyn cofnodion eraill a ddelir gan yr un corff neu gorff arall, i weld i ba raddau y maent yn paru. Gwybodaeth bersonol yw'r data fel arfer. Mae paru data yn golygu bod modd nodi ceisiadau a thaliadau a allai fod yn dwyllodrus. Os caiff data eu paru, gallai ddynodi bod anghysondeb y mae angen ymchwilio iddo ymhellach. Ni ellir tybio a oes achos o dwyll, gwall neu esboniad arall hyd nes y cynhelir ymchwiliad.

Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol awdurdod statudol i brosesu data fel rhan o ymarfer paru data o dan ei bwerau yn Rhan 3A o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Nid oes angen caniatâd yr unigolion perthnasol o dan Ddeddf Diogelu Data 1998.

Mae pob corff sy'n cymryd rhan yn ymarferion paru data'r Archwilydd Cyffredinol yn cael adroddiad o'r achosion y dylid ymchwilio iddynt, er mwyn canfod achosion o dwyll, gordaliadau neu dandaliadau a gwallau eraill, cymryd camau adfer a diweddaru eu cofnodion yn unol â hynny.

Sail gyfreithiol

1. O 2008, mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi cynnal ymarferion paru data o dan ei bwerau statudol yn Rhan 3A o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. O dan y pwerau yma:Gall yr Archwilydd Cyffredinol gynnal ymarferion paru data er mwyn helpu i atal a chanfod twyll, fel rhan o archwiliad neu fel arall;
2. Gall y Comisiwn ei gwneud yn ofynnol i lywodraeth leol a chyrff y GIG yng Nghymru ddarparu data ar gyfer ymarferion paru data;
3. Gall cyrff eraill gymryd rhan yn ei ymarferion paru data yn wirfoddol pan fo'r Archwilydd Cyffredinol o'r farn bod hynny'n briodol. Pan wneir hynny, noda'r statud na thorrir cyfrinachedd nac ychwaith, gyda rhai eithriadau penodol, (gweler adran 64C o Ddeddf 2004), unrhyw gyfyngiad arall o ran darparu'r data i'r Archwilydd Cyffredinol;
4. Mae gofynion Deddf Diogelu Data 1998 yn parhau i fod yn gymwys;
5. Gall yr Archwilydd Cyffredinol ddatgelu canlyniadau ymarferion paru data pan fydd hyn yn helpu i atal a chanfod twyll, gan gynnwys eu datgelu i'r cyrff sydd wedi darparu'r data;

6. Gall yr Archwilydd Cyffredinol ddatgelu'r data a ddarparwyd ar gyfer ymarferion paru data a chanlyniadau'r ymarferion hynny i'r Comisiwn Archwilio, Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol Gogledd Iwerddon, Archwilydd Cyffredinol yr Alban, Comisiwn Cyfrifon yr Alban ac Audit Scotland, er mwyn atal a chanfod twyll;
7. Mae achos anghyfiawn o ddatgelu data a ddarparwyd ar gyfer ymarferion paru data gan unrhyw berson yn drosedd;
8. Gall yr Archwilydd Cyffredinol godi tâl ar unrhyw gorff sy'n cymryd rhan mewn ymarfer paru data a rhaid iddo bennu graddfa ffioedd ar gyfer cyrff y mae'n ofynnol iddynt gymryd rhan;
9. Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol baratoi Cod Ymarfer ar ôl ymgynghori â'r cyrff y mae'n ofynnol iddynt gymryd rhan (llywodraeth leol a'r GIG), y Comisiynydd Gwybodaeth a chyrff eraill sy'n briodol ym marn yr Archwilydd Cyffredinol. Rhaid iddo hefyd gyflwyno copi o'r Cod ac unrhyw ddiwygiadau a wneir iddo gerbron y Cynulliad Cenedlaethol, a chyhoeddi'r Cod. Rhaid i bob corff sy'n cynnal ei ymarferion paru data neu'n cymryd rhan ynddynt ystyried y Cod, gan gynnwys yr Archwilydd Cyffredinol ei hun.
10. Gall yr Archwilydd Cyffredinol gyhoeddi adroddiad cryno.

Cyrff y mae'n ofynnol iddynt ddarparu data i'w paru neu sy'n gwirfoddoli data i'w paru

Ar hyn o bryd, mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi datgan ei bod yn ofynnol i'r cyrff canlynol ddarparu data:

- Awdurdodau unedol.
- Awdurdodau Heddlu.
- Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu.
- Awdurdodau tân ac achub.
- Awdurdodau pensiwn.
- Cyrff y GIG.
- Awdurdodau parciau cenedlaethol

Mae'n bosibl i gyrff eraill roi data i'r Archwilydd Cyffredinol i'w paru a hynny'n wirfoddol:

Y data a gaiff eu paru

Am wybodaeth sy'n disgrifio pa setiau o ddata a gaiff eu paru gan yr Archwilydd Cyffredinol, dylid cyfeirio at y canllawiau sydd ar gael ar y wefan hon.

Cod ymarfer ar baru data

Mae Cod Ymarfer yn berthnasol i ymarferion paru data gan yr Archwilydd Cyffredinol https://www.wao.gov.uk/sites/default/files/download_documents/Code_of_data_matching_cym.pdf.

Rhagor o wybodaeth

Gellir dod o hyd i ragor o fanylion am ymarferion paru data'r Archwilydd Cyffredinol, gan gynnwys adroddiadau cenedlaethol, cyhoeddiadau a chanllawiau eraill, drwy ddilyn y dolenni yn y cwarel llywio ar y chwith.

Neu gallwch ysgrifennu i:

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

E-bost: nfi@wao.gov.uk